

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn penodi Prif Weithredwr newydd

Heddiw, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyhoeddi bod Emily Miles wedi'i phenodi yn Brif Weithredwr newydd.

Ar hyn o bryd, mae Emily yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro y Grŵp Cyflenwi Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a bydd yn ymuno â'r ASB ym mis Medi 2019.

Mae Emily wedi bod yn gweithio i'r gwasanaeth sifil am bron i ugain mlynedd. Ymunodd â Defra ym mis Tachwedd 2015 fel Cyfarwyddwr Strategaeth y Grŵp Cyflenwi a chydlynu gwaith ar oblygiadau domestig ymadael â'r UE i Defra yn dilyn y refferendwm yn 2016.

Meddai Heather Hancock, Cadeirydd yr ASB:

'Mae gan Emily hanes trawiadol o ddatblygu strategaeth a chanlyniadau rhagorol ar draws y llywodraeth, yn Defra, Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Gartref. Mae hi'n ymuno â ni ar adeg allweddol ym maes rheoleiddio bwyd, wrth i ni weithredu ein trefn reoleiddio newydd y tu allan i'r UE, rheoli effeithiau tymor byr ymadael â'r UE, a pharhau i roi ein cynlluniau moderneiddio ar waith. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd gweledigaeth ac arweinyddiaeth strategol Emily yn hynod effeithiol yn yr ASB ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda hi.'

Meddai Emily Miles:

'Rwyf wrth fy modd fy modd yn ymuno â'r ASB ac rwy'n edrych ymlaen at arwain yr Asiantaeth wrth iddi wynebu heriau pan fydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r UE, yn ogystal â chyflenwi ei rhaglen drawsnewid uchelgeisiol.

'Fel sefydliad sy'n denu lefelau uchel o ymddiriedaeth gyhoeddus, mae'n anrhydedd i mi ymgymryd â rôl prif weithredwr yr ASB a chwarae fy rhan wrth yrru ei chenhadaeth o ddiogelu defnyddwyr drwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cydfynd â'r hyn sydd ar y label.

'Rwy'n edrych ymlaen at ddod i adnabod y tîm talentog yno yn ogystal â gweithio gyda chydweithwyr ar draws llywodraeth genedlaethol a lleol, ac yn y diwydiant i ddarparu bwyd diogel i ddefnyddwyr wrth i ni wynebu heriau newydd a chyfleoedd newydd.'

Bydd Cyfarwyddwr y Strategaeth Reoleiddio a Chyfreithiol, Rod Ainsworth, yn parhau fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro hyd nes y bydd Emily yn ymuno â'r ASB ym mis Medi.

Gellir darllen bywgraffiad llawn Emily Miles ar gov.uk.